



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr
Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Mawrth 2019

Cynnwys

Tudalen

1.1 Cyflwyniad.....	2
1.2 Yr ymgynghoriad hwn.....	2
1.3 Y Camau Nesaf.....	3
Adran 2.....	3
Cronodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru.....	3
Atodiad A.....	10
Rhestr o'r ymatebwyr.....	10

1.1 Cyflwyniad

Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n pennu'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac yn diwygio'r drefn o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Felly mae'n disodli systemau perthnasol a sefydlwyd yn flaenorol dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae Deddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth trwy wneud rheoliadau, ynghyd â chyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer.

Mae *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017*, a grëwyd dan Ddeddf 2016, yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol o ran darparu gofal a chymorth o fewn y gwasanaethau rheoleiddiedig canlynol:

- gwasanaethau cartrefu gofal (ar gyfer oedolion a phlant)
- gwasanaethau llety diogel ar gyfer plant
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaethau cymorth cartref

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ym mis Ebrill 2018 ac maent yn berthnasol i wasanaethau unwaith y mae eu cais am gofrestrriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cael ei benderfynu.

1.2 Yr ymgynghoriad hwn

Yn dilyn rhoi *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017* ar waith, fe adnabuwyd mân faterion wedyn a oedd yn golygu ei bod yn ofynnol gwneud diwygiadau. Caiff y newidiadau hyn eu nodi yn y drafft o'r *Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019* a oedd yn destun yr ymgynghoriad hwn.

Roedd 14 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Mae'r holl ymatebion wedi cael yr un faint o ystyriaeth o ran sylwadau a gafwyd. Mae rhestr o'r ymatebwyr wedi'i hatodi yn Atodiad A.

Ceir crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

1.3 Y Camau Nesaf

Yn dilyn dadansoddi ac ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae'r drafft o'r *Rheoliadau Diwygio Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019* wedi cael ei ddiwygio. Bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym ym mis Ebrill 2019.

Adran 2

Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

Eithriadau gwasanaethau cartrefi gofal				
1. A yw'r eithriadau diwygiedig rhag cofrestru fel gwasanaeth cartref gofal a gynigir yn rheoliad 4 o'r rheoliadau diwygio drafft yn eglur ac yn briodol?				
Cytuno 36%	Tueddu i gytuno 36%	Tueddu i anghytuno 7%	Anghytuno 0%	Dim ymateb 21%

Crynodeb o'r diwygiad(au)

Mae Rheoliad 4 yn y rheoliadau diwygio drafft yn newid rheoliad 2(i) yn *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017* mewn perthynas â gofal a llety a ddarperir ar gyfer plant anabl at ddibenion gwyliau neu weithgaredd hamdden. Roedd y diwygiad yn culhau cwmpas rheoleiddio i wasanaethau sy'n darparu gofal a llety *yn gyfan gwbl* neu *yn bennaf* i blant anabl, nid i unrhyw wasanaeth a all gynnwys plant anabl.

Mae Rheoliad 4 hefyd yn creu eithriad ychwanegol i drefniadau seibiant ar raddfa fach i blant neu grŵp o frodyr/chwiorydd a ddarperir yng nghartref y gofalwr ei hun, gyda chyfyngiad o hyd at 28 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r diwygiad, gan nodi bod y diwygiadau'n rhesymol ac yn gymesur. Dywedodd rhai nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am wasanaethau plant i wneud sylw. Roedd un ymatebydd o'r farn y byddai geiriad mwy eglur yn cael ei groesawu mewn perthynas â grwpiau o frodyr/chwiorydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi ystyried yr ymatebion ond nid ydym wedi nodi unrhyw ddiwygiadau o ganlyniad. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddatblygu polisi ar wahân ac ymgysylltu â rhanddeiliaid rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer y drefn yn y dyfodol i reoleiddio a

goruchwylio gwasanaethau sy'n darparu gwylliau preswyl i blant anabl ac y mae'n ofynnol ar hyn o bryd iddynt gofrestru fel gwasanaeth cartref gofal. Y bwriad yw gweithio gyda'r sector a rhanddeiliaid i ddatblygu trefniadau sy'n fwy cymesur â graddfa a natur y gwasanaethau hyn. Fel rhan o'r trefniadau pontio, bydd gwasanaethau sy'n darparu gwylliau preswyl i blant anabl, yn y cyfnod interim, wedi'u heithrio o'r gofyniad i gofrestru. Felly mae'r rheoliadau diwygio drafft wedi cael eu haddasu i dynnu'r gwasanaethau hyn allan o gwmpas rheoleiddio fel gwasanaeth cartref gofal.

Bydd y gwasanaethau hyn wedi'u heithrio ar yr amod bod darparwyr gwasanaethau o'r fath yn hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig. Bydd hyn o gymorth i gasglu gwybodaeth am oruchwylio a llywodraethu cynlluniau o'r fath tra'u bod y tu allan i'r drefn reoleiddio.

O ran yr eithriad ar gyfer grwpiau o frodyr/chwiorydd, mae hwn wedi'i fwriadu i eithrio person, megis cynorthwydd personol (CP) a gyllidir â thaliadau uniongyrchol, o gwmpas rheoleiddio fel gwasanaeth cartref gofal os yw plentyn neu grŵp o frodyr/chwiorydd yn cael gofal yng nghartref y person hwnnw dros nos am 28 diwrnod neu lai y flwyddyn. Y bwriad yma yw darparu hyblygrwydd ychwanegol o ran y ffordd y mae pobl yn defnyddio'u taliadau uniongyrchol.

Eithriadau ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref				
2. A yw'r eithriadau diwygiedig rhag cofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref a gynigir yn rheoliad 5 o'r rheoliadau diwygio drafft yn eglur ac yn briodol? Eglurwch eich ateb yn y blwch isod.				
Cytuno 29%	Tueddu i gytuno 0%	Tueddu i anghytuno 14%	Anghytuno 43%	Dim ymateb 14%

Crynodeb o'r diwygiad(au)

Mae Rheoliad 5 yn eithrio darpariaeth gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig o gwmpas y diffiniad o wasanaeth cymorth cartref. Mae hefyd yn eithrio darpariaeth gofal a chymorth gan Fwrdd Iechyd Lleol i ddiwallu anghenion sy'n gysylltiedig ag anghenion unigolion am ofal nyrsio.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd nifer o ymatebwyr yn anghytuno â'r diwygiad ac yn argymhell eithrio holl staff y GIG o'r rheoliadau. Roedd ymatebwyr eraill yn cefnogi'r diwygiadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi ystyried yr ymatebion ond nid ydym yn bwriadu ehangu'r eithriad sy'n ymwneud â Byrddau Iechyd Lleol. Diben y diwygiad yw darparu eglurder yn ogystal ag osgoi dyblygu a gorgyffwrdd diangen rhwng y ddwy arolygiaeth. Y bwriad yw osgoi dod â gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag angen am wasanaethau nyrsio ac a all fod yn darparu elfen o ofal a chymorth i unigolion fel rhan anorfod o'r gwasanaeth hwnnw i fewn i gwmpas rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rydym ni o'r farn y bydd y diwygiad yr ymgynghoron ni arno'n darparu eglurder ar gyfer timau nyrsio ardal a nyrsio cymunedol sy'n darparu gwasanaethau sydd wedi'u bwriadu i ddiwallu anghenion nyrsio pobl (ac a all fod yn darparu gofal a chymorth sy'n ategol i'r

angen am wasanaethau nyrsio). Mae gwasanaethau'r GIG yn cael eu goruchwyllo gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Fodd bynnag, gall fod trefniadau eraill gan BILlau a fydd yn dal i fod o fewn cwmpas trefn reoleiddio Arolygiaeth Gofal Cymru os ydynt yn cyflawni gweithgaredd sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o wasanaeth cymorth cartref.

Nid ydym yn cytuno y dylai unrhyw weithgaredd a gyflawnir gan BILlau neu nyrsys cofrestredig neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol fod wedi'i eithrio rhag y drefn reoleiddio lle mae'n cyd-fynd â'r diffiniad o wasanaeth rheoleiddiedig. Byddai hyn yn creu anghyfarwch rhwng darparwyr gwasanaethau ALI a BILI a'r gweithlu.

Dim ond os mai hwy yw rheolwr gwasanaeth rheoleiddiedig y mae'n ofynnol i nyrsys gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Nid yw'r rheoliadau diwygio'n newid y sefyllfa honno.

Rheolwyr asiantaethau nyrsys				
3. A yw'r gofynion cofrestru diwygiedig ar gyfer rheolwyr asiantaethau nyrsys a gynigir yn rheoliad 8 o'r rheoliadau diwygio drafft yn eglur ac yn briodol?				
Cytuno 36%	Tueddu i gytuno 7%	Tueddu i anghytuno 0%	Anghytuno 14%	Dim ymateb 43%

Crynodeb o'r diwygiad(au)

Mae Rheoliad 8 yn diwygio'r gofynion mewn perthynas â rheolwyr gwasanaethau cymorth cartref i ganiatáu i'r rheolwyr asiantaethau nyrsys hynny a oedd wedi'u cofrestru dan y Ddeddf Safonau Gofal yn flaenorol beidio â gorfod cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru tan 1 Ebrill 2020.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n cytuno â'r diwygiad hwn neu heb ddarparu ymateb. O'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd un wedi camddeall bwriad y diwygiad a darparodd un ymateb nad oedd yn mynd i'r afael â'r cwestiwn a godwyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r diwygiad hwn yn ymwneud â'r gofyniad i reolwyr gwasanaethau rheoleiddiedig gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer rheolwyr gwasanaethau cymorth cartref a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol fel asiantaethau nyrsys dan y Ddeddf Safonau Gofal trwy ddarparu amser ychwanegol i gofrestru.

Rydym ni o'r farn ei bod yn gymesur ac yn rhesymol rhoi digon o amser i reolwyr gwasanaethau cymorth cartref, a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol fel asiantaethau nyrsys dan y Ddeddf Safonau Gofal, i gofrestru fel rheolwyr gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Y rheswm dros hyn yw nad oedd gofyniad dan y Ddeddf Safonau Gofal i reolwyr gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Felly, rydym yn bwriadu cadw'r geiriad yn y rheoliadau diwygio drafft.

Nid yw'n fwriad gan Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i nyrsys sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol gofrestru gyda GCC oni bai eu bod yn rheoli gwasanaeth rheoleiddiedig. Nid yw'r rheoliadau'n newid y sefyllfa hon.

Mae rheoli gwasanaeth rheoleiddiedig yn rôl benodol sydd â gofynion i fod â chymwysterau ychwanegol, a nodir yn fframwaith cymwysterau GCC:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/fframwaith-cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru>

Y rhesymeg yw hybu a chynnal ansawdd ar gyfer pobl trwy ei gwneud yn ofynnol i unigolion fod â phrofiad galwedigaethol neu seiliedig-ar-ymarfer mewn lleoliad gofal cymdeithasol neu ofal iechyd yn ychwanegol at brofiad academiaidd.

Er bod pryderon wedi cael eu codi bod y gofyniad presennol i gofrestru gyda GCC yn ogystal â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn rhwystr i recriwtio, nyrsys yw cyfran sylweddol o reolwyr gofal cymdeithasol cofrestredig:

Cofrestriad gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	2014	2015	2016	2017
<i>Nifer</i>	<i>317</i>	<i>279</i>	<i>287</i>	<i>248</i>
<i>Canran</i>	<i>25.3%</i>	<i>22%</i>	<i>22.7%</i>	<i>20.4%</i>

Fel rhan o'n hymrwymiad i broffesiynoli'r gweithlu rydym wedi estyn cofrestriad i weithwyr gofal cartref o fis Ebrill 2018 a byddwn yn mandadu hyn o fis Ebrill 2020. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i baratoi'r ddeddfwriaeth gysylltiedig gan gynnwys ymgynghoriad ffurfiol dros yr haf.

Diwygiadau eraill				
4. A yw'r diwygiadau a gynigir yn y rheoliadau diwygio drafft yn eglur ac yn briodol?				
Cytuno 29%	Tueddu i gytuno 14%	Tueddu i anghytuno 7%	Anghytuno 7%	Dim ymateb 43%

Crynodeb o'r diwygiad(au)

Y diwygiadau eraill yn y rheoliadau drafft:

- Cael gwared â gofynion hysbysu a chadw cofnodion yng nghyswllt achosion o salwch,
- Diwygio'r geiriad mewn perthynas â chadw cofnodion a'r gofynion hysbysu yng nghyswllt achosion o friwiau pwysu,
- Gwneud mân ddiwygiad i'r diffiniad o wasanaethau llety 'Categori B' (sy'n ymwneud ag estyniad newydd i adeilad presennol),
- Gwneud nifer o fân ddiwygiadau i gywiro materion o ran teipograffeg a'r cynllun.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n cytuno â'r diwygiadau hyn neu heb wneud sylwadau. Roedd rhai sylwadau'n ymwneud â materion a oedd yn cael sylw mewn cwestiynau eraill.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ond nid ydym yn bwriadu gwneud diwygiadau o ganlyniad. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu gwneud rhai mân ddiwygiadau ychwanegol i Atodlen 3 o reoliadau 2017 mewn perthynas â hysbysiadau sydd i'w gwneud gan y darparwr gwasanaethau. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u bwriadu i sicrhau bod hysbysiadau'n adlewyrchu arfer gorau cyfredol ac yn defnyddio'r derminoleg ddiweddaraf. Maent hefyd yn sicrhau cysondeb â'r rheoliadau a grëwyd dan gam 3 o'r broses o roi Deddf 2016 ar waith, ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu a gwasanaethau eirioli.

Rydym hefyd yn bwriadu ychwanegu gofynion mewn perthynas â chynorthwyo plant sy'n byw mewn cartrefi gofal a llety diogel i reoli eu harian. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb â'r gofynion yn *Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019*.

5. Cwestiynau eraill – grwpiau â nodweddion gwarchoddedig

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

Cwestiwn 5. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham?

Crynodeb o'r ymatebion

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr naill ai na fyddai unrhyw effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig neu ni wnaethant unrhyw sylwadau. Nid oedd rhai sylwadau'n uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi nodi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn.

6. Cwestiynau eraill – grwpiau â nodweddion gwarchoddedig

Cwestiwn 6. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn

cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham?

Crynodeb o'r ymatebion

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr naill ai na fyddai unrhyw effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig neu ni wnaethant unrhyw sylwadau. Nid oedd rhai sylwadau'n uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi nodi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn.

7. Cwestiynau eraill – Y Gymraeg

Fe hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar

- i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
- ii) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yn eich tyb chi? Sut allai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu effeithiau negyddol gael eu lliniaru?

Crynodeb o'r ymatebion

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr naill ai na fyddai unrhyw effaith ar y Gymraeg neu ni wnaethant unrhyw sylwadau. Nid oedd rhai sylwadau'n uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi nodi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn.

8. Cwestiynau eraill – Y Gymraeg

Cwestiwn 8. Eglurwch sut yr ydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu eu newid er mwyn achosi:

- i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r ymatebion

Dyweddod y mwyafrif o'r ymatebwyr naill ai na fyddai unrhyw effaith ar y Gymraeg neu ni wnaethant unrhyw sylwadau. Nid oedd rhai sylwadau'n uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi nodi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn.

9. Cwestiynau eraill - Cyffredinol
C9. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i'w nodi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y rhan fwyaf o sylwadau'n ailddatgan pwyntiau a wnaed yn gynharach, yn enwedig mewn perthynas â chwestiwn 2.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi nodi'r sylwadau ac wedi ymateb i'r pwyntiau hyn drwy'r crynodeb hwn.

Atodiad A

Rhestr o'r ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol I/N	Enw	Sefydliad/ ar ran	Math o ymatebydd	
1		N	Tessa Callaghan	Addysg a Gwella Iechyd Cymru	Awdurdod Iechyd Arbennig
2	I				Dienw
3		N	Tony Sawyer	-	Unigolyn ¹
4		N	Anna Mogie	BIP Caerdydd a'r Fro	Bwrdd Iechyd
5		N	Mr R W Ebley	-	Unigolyn
6	I				Dienw
7		N	Nia Thomas	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Bwrdd Iechyd
8		N	Simon Jones	Cyngor Abertawe	Awdurdod Lleol
9		N	Dr Denise Shanahan	Pwyllgor Cynghori Statudol Cymru ar Nyrsio a Bydwreigiaeth	Corff cynrychiadol
10		N	Will Oliver	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Bwrdd Iechyd
11		N	Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru	Corff cynrychiadol
12		N	David Williams	Ar ran Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
13		N	Carys James	Cyngor Sir Ceredigion	Awdurdod Lleol
14		N	Nid oedd yn dymuno i'w enw gael ei ddatgelu	Y Coleg Nyrsio Brenhinol	Corff cynrychiadol

¹ Cafwyd dau ymateb gan yr un unigolyn. Rydym wedi ystyried yr holl sylwadau ond wedi trin hwn fel un ymateb. Lle darparwyd ymatebion gwahanol i'r un cwestiwn rydym wedi dogfennu'r ymateb mwyaf negyddol.